

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Dulliau integredig o hyrwyddo llesiant



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Dulliau integredig o hyrwyddo llesiant: cefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae llawer o sefydliadau ac unigolion yn helpu i hyrwyddo a chynnal llesiant pobl yng Nghymru. Mae'r adnodd hwn yn rhoi enghreifftiau o gyfraniadau cydweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau fel tai, cludiant, yr amgylchedd, priffyrdd a hamdden, a chyfraniadau'r sawl sy'n ymwneud â'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol. Mae'n helpu'n cynnwys enghreifftiau lle mae sefydliadau neu adrannau wedi cydweithio i hyrwyddo a chynnal llesiant.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i: **feddwl mwy am yr hirdymor; gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, ac â'i gilydd**; mynd ati i **atal problemau**; a mabwysiadu **dull mwy cydgysylltiedig**.

Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Felly, mae'n ategu'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn darparu fframwaith ar gyfer y tymor hirach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **taflen wybodaeth** sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfleoedd a'r berthynas rhwng **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Mae'r daflen wybodaeth yn rhoi trosolwg cryno o'r deddfau a sut gallan nhw gydweithio'n ymarferol, e.e. wrth asesu llesiant yr ardal leol, gweithio mewn partneriaeth, a chynllunio mewn ymateb i'r asesiadau.

Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu yn cynnwys canllaw o adnoddau ategol am y **prif egwyddorion** sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae nifer o adnoddau sy'n ystyried gwahanol wasanaethau i iechyd a llesiant:

- **Rôl Llywodraeth Leol o Ran Hyrwyddo Llesiant** (Gwella a Datblygu Llywodraeth Leol, 2010).
- **Rôl Diwylliant a Hamdden o Ran Gwella Iechyd a Llesiant** (Prif Gymdeithas Swyddogion Diwylliant a Hamdden, 2014).
- **Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach – Cyflwyno Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-2018** (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015).
- Mae **The Enabling State** yn rhaglen waith gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU sy'n archwilio perthynas newydd rhwng y llywodraeth a dinasyddion, lle mae gan ddinasyddion

a chymunedau fwy o reolaeth dros eu llesiant eu hunain a sut mae'r wladwriaeth (ac eraill, gan gynnwys y trydydd sector) yn gallu chwarae rôl mwy ymgysylltiol ac ymatebol er mwyn helpu i'w wireddu. Mae'r **adnoddau** yn cynnwys cyflwyniadau fideo, enghreifftiau o **The Enabling State in Practice** a chyfres o **astudiaethau achos** o'r DU gyfan. Yn 2016, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Carnegie hefyd **Sharpening Our Focus: Guidance on Well-being Frameworks for Cities and Regions**.

Mae **Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru 2015** gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth a data ar: ddatblygiad; mynediad i gyfleoedd addysg a dysgu; iechyd; mynediad i chwarae; cefnogaeth, hamdden a diwylliant; cyfranogiad mewn penderfyniadau a mynegi hunaniaeth; cartref a chymuned ddiogel; ac yn rhydd o anafanteision tlodi.

Nod **Cyfnwidfa Arfer Da** Swyddfa Archwilio Cymru yw rhannu gwybodaeth ac arfer da er mwyn helpu sector cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau gwell. Mae'n cynnwys ystod o adnoddau i hyrwyddo llesiant.

Gwella Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn Gwlad â Chyfoeth o Adnoddau ond Prinder Arian. Dyma flog gan yr Athro Tony Bovaird, Cyfarwyddwr Llywodraethu Rhyngwladol, sef sefydliad nid er elw sy'n gweithio ledled Ewrop ar bolisiau seiliedig ar ganlyniadau a chydgyhyrchu.

Chwaraeon: Adnodd Pwerus ar gyfer Gwella Llesiant. Blog gan Dr Rachel Hughes, Pennaeth Gweledigaeth gyda Chwaraeon Cymru, sy'n sôn am bwysigrwydd chwaraeon i hyrwyddo llesiant.

A Wêl a Gred, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chydgyhyrchu Cymru, sy'n cynnwys cyfres o fentrau cydgyhyrchu o Gymru mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol, tai a'r gymuned. Mae'n rhoi cyflwyniad i gydgyhyrchu, astudiaethau achos, dolenni i adnoddau eraill, gweithlyfr ac offeryn archwilio cydgyhyrchu.

Co-production and Housing. Cyflwyniad gan Noreen Blanluet, cyd-sylfaenydd Cydgyhyrchu Cymru, sy'n cynnwys cyfres o astudiaethau achos.

Mae Housing LIN wedi coladu amrywiaeth o adnoddau defnyddiol ar **Co-production and Community Approaches**, yn cynnwys tai cydweithredol ar gyfer pobl hŷn, gofal iechyd cydweithredol, datblygiad cymunedol seiliedig ar asedau, datblygiadau cymunedol, a chymorth a gofal dan arweiniad y gymuned yn y gymuned.

Co-producing Support Services (Housing Europe, 2015). Adroddiad o weithdy ar gydgyhyrchu sy'n rhoi cyflwyniad byr i gefndir ac egwyddorion cydgyhyrchu.

Mae adnoddau pellach ar gydgyhyrchu ar gael yn y canllaw ategol **Cynllunio, Comisiynu a Chydgyhyrchu**.

Ym mis Gorffennaf 2015, arweiniodd Cartrefi Cymunedol Cymru gynhadledd ar **Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol**, a oedd yn cynnwys sawl cyflwyniad perthnasol megis: atal cwmpo; darparu gwasanaethau dementia; tai ac iechyd; asesiadau effaith ar iechyd; cryfhau iechyd yn y sector tai; Asesu'r Effaith ar Iechyd Pobl Hŷn; Tai Gofal Ychwanegol Tan-Y-Fron; Tîm Adfywio Tai Dinas Casnewydd; iechyd a thai – cynnal annibyniaeth yn y cartref; a thai a gofal sylfaenol.

Mae **Fit for Purpose project, promoting independence**, yn disgrifio sut mae gofal cymdeithasol oedolion, gwasanaethau tai a phriffyrdd ym Mhowys wedi cydweithio i wella tai a chyfleusterau lleol fel bod gan bobl hŷn well gwasanaethau a mynediad i'w cartrefi, sy'n eu galluogi i fod yn fwy annibynnol yn eu cymuned am gyfnod hirach.

Mae gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi gwybodaeth am **gartrefi ac iechyd**, ac yn rhoi enghraifft o **gytundeb** rhwng Tai Cymunedol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydweithio er mwyn gwella bywydau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn 2011, comisiynwyd KAFKA Brigade UK gan Tai Cymunedol Cymru a Gofal & Thrwsio Cymru i gynnal astudiaeth ar y cyfleoedd i'r sector tai cymunedol i gefnogi canlyniadau iechyd. Mae adroddiad llawn ar gael **yma**.

Mae adroddiad gan **Gomisiwn ar Dai a Llesiant (Yr Alban)** yn ystyried manteision tai da ar gyfer gwahanol agweddau ar lesiant: cartref; cymuned; cyflogaeth; incwm; iechyd; addysg; a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae'r papur trafod, **A Transport Journey to a Healthier Life**, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (2016) yn adolygu'r berthynas rhwng polisiau ac arferion cludiant, iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), a llesiant.

Mae adroddiad gan y WRVS (2013), **Going Nowhere Fast**, yn disgrifio effaith cludiant anhygyrch ar lesiant yng Nghymru.

Mae Cludiant Cymunedol yn galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol, i gyfranogi yn eu cymuned a chael mynediad at addysg, cyflogaeth, iechyd a gwasanaethau eraill. Mae'n defnyddio ac yn addasu cerbydau confensiynol at ddibenion cymdeithasol a lles cymunedol, ond nid er elw. Gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau o foped i fws mini, mae gwasanaethau nodweddiadol yn cynnwys cynlluniau ceir gwirfoddol, gwasanaethau bysiau cymunedol, cludiant ysgol, cludiant ysbyty, trefnu lifft dros y ffôn, olwynion i'r gwaith a gwasanaethau llogi i grwpiau. Mae cludiant cymunedol yn ymatebol, yn hygyrch ac yn hyblyg.

Mae'r **Gymdeithas Cludiant Cymunedol** (CTA) yn gymdeithas o aelodau, sy'n cefnogi cludiant cymunedol i fod yn llwyddiannus a chynaliadwy yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n rhoi arweiniad trwy hybu cludiant cymunedol a dylanwadu ar ddatblygu strategaeth, polisiau, rheoliadau a buddsoddiad ar bob lefel o lywodraeth. Mae'n rhoi cefnogaeth trwy argymhell safonau ymarfer uchel ac yn darparu cyngor, gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth ymarferol sy'n helpu gweithredwyr i weithio i'r safonau hyn. Yng Nghymru, mae'r CTA yn cydweithio â Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarparu cludiant i gleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys a gyda byrddau iechyd lleol i ddarparu cludiant anghenion cymdeithasol a gwasanaethau i'r rhai sy'n gallu hawlio ad-daliad am gostau teithio. Mae CTA Cymru yn awyddus i gydweithio â'r holl bartneriaid i sicrhau bod y sawl sy'n methu â chael mynediad i ddulliau teithio eraill oherwydd eu hoed, anabledd, lleoliad neu unrhyw anfantais arall yn gallu cyrraedd y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, boed yn iechyd, gofal cymdeithasol, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden. Mae **CT Ar-lein** yn cynnwys adran dan yr enw 'Find my local provider'.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cryn ddiddordeb wedi bod yn y berthynas rhwng y **celfyddydau, iechyd a llesiant**. Dyma rai adnoddau defnyddiol:

- Cyngor Celfyddydau Cymru (2009) **Y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru**.
- Connected Communities (2011) **Participatory Arts and Well-being: Past and Present Practices**.
- Mae **Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol Cymru** yn gorff cynrychioliadol celf a chrefft amatur a gwirfoddol sy'n ceisio hyrwyddo a chynyddu cyfranogiad gweithredol mewn weithgareddau diwylliannol ledled Cymru. Mae'n credu bod cymryd rhan mewn celf a chrefft yn cyfrannu at gymdeithas rymus, gyfranogol, gyflawn ac iach. Mae **Gwent Arts in Health** ac **Arts Alive Wales** yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau celf a llesiant eraill.
- Mae gwefan y **National Alliance for Arts, Health and Well-being** yn cynnwys gwybodaeth gefndir ddefnyddiol ac amrywiaeth o adnoddau ar y celfyddydau, iechyd a llesiant.
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2016) **Arts for Health and Well-being: An Evaluation Framework**.
- **Ysgol Gelfyddyd Manceinion**.
- **Prifysgol Fetropolitan Manceinion blog iechyd a'r celfyddydau**.

Manylion cyswilt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680

Ebost: hyb@cgymru.org.uk
www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

 gettheact  @DeallyDdeddf

© 2016 Cyngor Gofal Cymru

